


Gofynnwch am / Please ask for:

 **01492 575013**

 **01492 575014**



Ein Cyf / Our Ref:

Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date:

Annwyl Riant/Gofalwr/Gwarcheidwad

Dear Parent/Carer/Guardian

### Presenoldeb Ysgol/Gwyliau

### Re: School Attendance/Holiday Leave

Darllenwch yr wybodaeth ganlynol yn ofalus.

Please read the following information carefully.

Bydd cymryd eich plentyn/plant allan o'r ysgol yn ystod tymor ysgol yn effeithio ar eu presenoldeb a'u cyrhaeddiad.

Taking your child/children out of school during term time will impact on their attendance and overall attainment.

Mae presenoldeb rheolaidd yn ganolog i agenda ac ymdrech Llywodraeth Cymru i godi cyrhaeddiad yng Nghymru, a dengys ymchwil fod gan bresenoldeb a chyrhaeddiad gyswllt cryf â'i gilydd.

Regular attendance is central to Welsh Government's agenda and drive to raise attainment in Wales, and research indicates that attendance and attainments are strongly linked.

Nid yw'r gyfraith yn rhoi hawl awtomatig i rieni gymryd eu plentyn/plant allan o'r ysgol yn ystod tymor ysgol. Bydd pob cais am wyliau yn cael ei ystyried gan y pennaeth yn unigol.

The law does not grant parents an automatic right to take their child/children out of school during term time. All requests for holidays will be considered by the Headteacher on an individual basis.

Dylai rhieni bob amser ofyn am ganiatâd am wyliau gan adael 4 wythnos i'r ysgol ystyried ac ymateb.

Parents must always request permission for holiday leave allowing 4 weeks for the school to consider and respond.

Mae rheoliadau Llywodraeth Cymru yn nodi y gall penaethiaid, mewn amgylchiadau eithriadol gytuno i hyd at 10 diwrnod o absenoldeb yn ystod blwyddyn academiaidd y tu hwnt i ddyddiadau gwyliau ysgol statudol.

Welsh Government regulations state that Headteachers may, in exceptional circumstances agree up to 10 days absence during an academic year outside statutory school holiday dates.

Os ydych yn ystyried bod eich cais am wyliau yn eithriadol bydd angen i chi lenwi'r ffurflen sydd ynghlwm ac efallai y gofynnir i chi fynychu cyfweiliad yn yr ysgol i drafod eich cais.

If you consider that your request for a holiday is exceptional you will need to complete the attached form and you may be asked to attend an interview in the school to discuss your request.

Os na ystyrir fod y gwyliau o fewn amgylchiadau eithriadol, ond eich bod dal yn cymryd eich plentyn/plant o'r ysgol, bydd yr absenoldeb yn cael ei gofnodi fel un **diawdurdod**.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cael eu hysbysu ynglŷn â gwyliau diawdurdod. Gall hyn olygu Hysbysiadau Cosb Penodedig yn cael eu cyflwyno. Sylwer y gallai cosb o'r fath gael ei gyflwyno i bob rhiant ar gyfer bob plentyn a gymerir o'r ysgol. Hysbysiad cosb penodedig yw dirwy o £60 sy'n cynyddu i £120 os nad yw'n cael ei dalu o fewn y 28 diwrnod cyntaf. Bydd methiant i dalu yn arwain at gamau cyfreithiol yn cael eu dechrau yn y Llys Ynadon.

Gobeithiaf y byddwch yn cefnogi hyn ac yn gwerthfawrogi fod hyn yn seiliedig ar dystiolaeth fod disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd, yn cyflawni gwell canlyniadau o gymharu â disgyblion sy'n colli cyfnod sylweddol o'u haddysg.

If the holiday is not considered to be an exceptional circumstance, but nevertheless you still take your child/children out of school, the absence will be recorded as **unauthorised**.

The Local Authority will be notified of unauthorised holidays. This may result in a Fixed Penalty Notice being issued. Please note that such a Penalty could be issued to each parent for each child taken out of school. A Fixed Penalty Notice is a fine of £60 which increases to £120 if not paid within the first 28 days. Failure to pay will result in legal action being instigated in the Magistrates Court.

I hope you will support this position and appreciate this action is centred upon evidence that pupils who attend school regularly, attain better outcomes in their education compared with pupils who miss significant period of their education.

Yn gywir / Yours sincerely



Richard Ellis Owen

**Pennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg)  
Head of Education Services (Chief Education Officer)**

Copi i / Copy: Ffeil / File